

DATGANIAD NEWYDDION

I'W RYDDHAU AR UNWAITH
11 Ionawr 2019

Dysgwch ragor am Wylfa Newydd yng Nghymhorthfa Agored gyntaf 2019

Bydd Pŵer Niwclear Horizon yn cynnal ei Gymhorthfa Agored gyntaf yn 2019 ddydd Llun 21 Ionawr yn Neuadd Bentref Cemaes.

Rhwng 1pm a 7pm, bydd aelodau'r cyhoedd yn cael eu gwahodd i ddod draw i gwrdd â thîm Horizon a chael mwy o wybodaeth am Brosiect Wylfa Newydd. Mae croeso i bawb alw heibio felly does dim angen trefnu apwyntiad.

Mae'r Cymorthfeydd Agored, a gynhelir ar y trydydd dydd Llun o bob mis, yn gyfle i bobl weld yr wybodaeth ddiweddaraf am y prosiect a gofyn unrhyw gwestiynau a allai fod ganddynt i aelodau o'r tîm.

Dywedodd Richard Foxhall, Rheolwr Materion Allanol Cymru: "Wrth i ni aros am y penderfyniad ar ein Gorchymyn Cydsyniad Datblygu yng nghyswllt y cais cynllunio ac edrych ymlaen at ddechrau'r gwaith mawr arall, mae 2019 yn argoeli i fod yn flwyddyn arwyddocaol ar gyfer Wylfa Newydd.

"Mae'r sesiynau galw heibio hyn yn rhoi'r cyfle i bobl leol siarad ag aelod o'r tîm bob mis a thrafod unrhyw ran o'r prosiect. Os na fyddwch chi'n gallu galw draw i'n Cymhorthfa Agored, mae ein tîm hefyd yn ymweld â phentrefi ar draws Ynys Môn yn ein cerbyd cymunedol bob wythnos, felly cadwch lygad allan ar Twitter i ddarganfod ble fydd y bws".

Mae rhagor o wybodaeth am Brosiect Wylfa Newydd ar gael yn www.horizonnuclearpower.com, neu drwy ffonio 0800 954 9516, anfon e-bost i ymholiadauwylfa@horizonnuclearpower.com neu ddilyn Horizon ar Twitter [@horizonnuclear](https://twitter.com/horizonnuclear) ac Instagram ['horizonnuclear'](https://www.instagram.com/horizonnuclear).

- DIWEDD -

I gael rhagor o wybodaeth, cysylltwch â:

Richard Foxhall – 07807 769265 neu richard.foxhall@horizonnuclearpower.com

Nodiadau i olygyddion:

- Ffurfiwyd Pŵer Niwclear Horizon yn 2009 i ddatblygu gorsafoedd pŵer niwclear newydd yn y DU. Prynwyd y cwmni gan Hitachi Ltd o Japan ym mis Tachwedd 2012.
- Bydd datblygiad Horizon ar Ynys Môn yn golygu buddsoddiad gwerth biliynau o bunnoedd yng ngogledd Cymru, gan greu cyfleoedd cyflogaeth tymor hir o ansawdd da ac arwain at fanteision economaidd a chymdeithasol parhaol i'r rhanbarth.